Padrig Sant 390–461

Apostol y Gwyddelod

Ychydig iawn a wyddom am fywyd cynnar Padrig ac y mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth wedi ei chywain o'i Gyffesion. Ei enw Lladin oedd Patricius ac yr oedd ganddo hefyd enw Prydeinig, sef Sucat neu Sochet. Brodor o Brydain ydoedd, a hanai o rywle rhwng aber afon Hafren a de-orllewin yr Alban. Honna rhai mai Cymro ydoedd. Nid oes neb yn gwybod ble mae lleoliad y pentref lle y ganed ef, sef Bannavem Taberniae, ond mae'n rhaid ei fod yn agos at dref Rufeinig gan fod ei dad, Calpurnius, yn ustus. Yr oedd ei deulu yn ddinasyddion Rhufeinig ac yn Gristnogion. Er bod ei dad yn ddiacon a'i daid yn bresbyter nid oedd Padrig yn grediniwr. Pan oedd yn fachgen treuliau lawer o'i ddyddiau yn gweithio ar fferm ei dad ac ni chafodd fawr ddim addysg. Yn 405 glaniodd ysbeilwyr o Iwerddon gan gipio nifer fawr o bobl, yn cynnwys Padrig a oedd oddeutu un ar bymtheg oed.

Fe'i cludwyd i Iwerddon lle y gweithiodd fel caethwas i amaethwr yn Slemish, nid nepell o'r fan le mae Ballymena, Swydd Antrim, heddiw. Gofalodd am y moch am ryw chwe blynedd. Yno ystyriodd ystyr bywyd a'i berthynas â Duw. Dywedodd, 'Dangosodd yr Arglwydd fy anghrediniaeth fel y gallwn, er ei bod yn hwyr, gofio fy ffaeleddau a dod i adnabyddiaeth o Dduw a'i gariad rhyfeddol.'

Un noson cafodd weledigaeth. Clywodd lais yn ei gymell i adael y fferm a mynd at lan y môr lle y byddai llong yn disgwyl amdano. Ufuddhaodd, ac yno ar yr arfordir yr oedd llong ar hwylio. Aeth arni ac wedi mordaith o ddeufis glaniodd a mynd i Sant Honorat ar arfordir deheuol Gâl. Yno treuliodd nifer o flynyddoedd yn astudio mewn mynachlog. Dychwelodd i Brydain yn 414/5. Yn y cyfnod hwn ymddangosodd cyfaill iddo o Iwerddon o'r enw Victoricus mewn gweledigaeth. Rhoddodd hwn lythyr iddo ac ar yr un pryd clywodd lais pobl oedd wrth goedwig Focluth ar arfordir y gorllewin yn galw gan ddweud, 'Os gweli di'n dda, fachgen sanctaidd, tyrd i gerdded yn ein plith eto.' Treiddiodd y gri i'w galon a deffrodd Padrig o'i gwsg. Credai mai galwad oedd hon gan Dduw i fynd

i gyhoeddi'r Efengyl yn Iwerddon. Aeth i astudio am gyfnod yn Auxerre ac fe'i hordeiniwyd yn ddiacon. Yn ddiweddarach fe'i cysegrwyd yn esgob gan Germanus, esgob newydd Auxerre, ac fe'i hanfonwyd allan fel 'apostol i Grist'. Pan aeth Padrig i Iwerddon, gwlad baganaidd ydoedd ar y cyfan gydag ychydig o gymunedau Cristnogol bychain wedi eu sefydlu gan ei ragflaenydd Palladius. Wrth ddechrau ar ei waith, ei fwriad oedd annog y Cristnogion hyn i ymestyn allan i ardaloedd cyfagos gyda'r Efengyl.

Glaniodd yn Iwerddon yn 433 ar yr arfordir dwyreiniol ac fe gafodd groeso gan Dichu, pennaeth lleol oedd yn berchen castell yn Downpatrick. Daeth Dichu i gredu yn Iesu Grist a rhoddodd ysgubor i Padrig – mewn man a elwir heddiw yn Saul – er mwyn iddo'i defnyddio fel eglwys. Aeth Padrig i gyfarfod y brenin Laoghaire yn Tara, Swydd Meath, a chyflwyno'r newyddion da iddo am Iesu. Er na chredodd ef, fe gredodd un o'i frodyr, sef, Conall a rhoddwyd caniatâd i Padrig barhau â'i genhadaeth yno. Teithiodd Padrig wedyn i'r gorllewin i ardal Connaught lle y treuliodd saith mlynedd yn gweithio. Aeth ymlaen wedyn i Ulster ac Armagh, lle yr adeiladodd eglwys gadeiriol. Ar ei deithiau sefydlodd lawer o fynachlogydd ac ynddynt lletyai miloedd o fynaich. Ynddynt roedd disgyblaeth lem gan fod angen cadw trefn ar y cannoedd o baganiaid oedd wedi dod yn Gristnogion. Roedd y mynachlogydd hyn yn nyddiau cynnar yr eglwys yn Iwerddon yn ganolfannau pwysig lle roedd cenhadon yn ymestyn allan i'r gymuned. Byddai disgyblion yn dod i'r mynachlogydd i astudio'r ysgrythurau a yno gwneid copïau o'r Efengylau.

Erbyn diwedd ei oes treuliai Padrig lawer o'i amser yn y gogledd ac yn 457 rhoddodd y gorau i fod yn arweinydd y Cyngor Gwyddelig. Bedair blynedd yn ddiweddarach bu farw ar 17 Mawrth, sydd bellach yn ddydd gŵyl Padrig.